



Eich cyf/Your ref P-05-955
Ein cyf/Our ref KS/00903/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

17 Ebrill 2020

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mawrth ynglŷn â Deiseb P-05-955 'Gwrthwynebu cynnig Costain i weithredu Opsiwn B ar gyfer dargyfeirio'r A465 ym Mryn-mawr'

Mae Costain yn gwneud newid sylweddol i'r drefn ffyrdd dros dro wrth adeiladu Rhan 2 o brosiect yr A465, sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau'r prosiect. Mae'r cynnig yn cynnwys symud y ddwy lon draffig i'r A465 uchel, dwy lefel newydd ar gyfer 2km mwyaf gorllewinol y cynllun. Mae symud y traffig yn galluogi dechrau gwaith ar yr A465 lefel isel bresennol y mae traffig wedi bod yn ei defnyddio hyd yn hyn.

Mae nifer o opsiynau wedi cael eu hystyried ar gyfer rheoli traffig wrth i'r gwaith hwn gael ei gwblhau. Wrth ddewis opsiwn mae tîm y prosiect wedi cydbwysu nifer o ffactorau sy'n cystadlu, gan ystyried:

- Diogelwch y cyhoedd sy'n teithio a'r gweithlu
- Amseroedd teithio a dibynadwyedd yr A465 a'r rhwydwaith ffyrdd lleol
- Lefel yr amharu ar gymunedau lleol ar hyd y llwybr.

Fodd bynnag, mae'r gwaith o ystyried yr opsiynau wedi dangos nad oes opsiwn na fydd yn amharu ar yr ardal, a blaenoriaeth y tîm oedd lleihau lefel yr amharu hwnnw cymaint ag y bo modd. O ganlyniad i'r gwaith a wnaed hyd yn hyn, nodwyd dau brif opsiwn fel y rhai a oedd fwyaf tebygol o fodloni gofynion y prosiect, sef Opsiwn A ac Opsiwn B.

Nododd asesiad o'r drefn ffyrdd yn Opsiwn A y byddai ciwiau hir, a bod angen edrych ar opsiynau eraill. Mae datblygu Opsiwn B wedi cynnwys ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid. Mae Costain wedi datblygu eu cynigion mewn cydweithrediad â'r Grŵp Cysylltu Rheoli Traffig, sy'n cynnwys swyddogion o'r awdurdodau lleol, Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru a'r Gwasanaethau Brys. Mae tîm y prosiect wedi ymgynghori ag aelodau etholedig lleol a Fforwm Busnes Bryn-mawr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae sesiwn frifio lawn wedi cael ei chynnal gyda Fforwm Busnes Bryn-mawr i egluro'r oedi traffig a ragwelir o dan Opsiwn A, ac i egluro bod y modelu traffig a gynhaliwyd yn nodi y byddai teithwyr yn cyrraedd Bryn-mawr yn gyflymach o dan Opsiwn B. Mae'r trefniadau rheoli traffig wedi eu cynllunio i hwyluso traffig i symud yn rhydd ar yr A465, er ei fod yn parhau i gael ei gyfyngu i 40mya. Disgwylir i Opsiwn B wella amseroedd teithio yn gyffredinol, a lleihau'r temtasiwn i ddefnyddio ffyrdd lleol, wrth i ddibynadwyedd wella. Dylai'r dargyfeiriad gymryd tua saith munud.

Cydnabyddir y bu traffig ychwanegol yng Nghendl wrth i yrwyr osgoi ciwiau ar yr A465 o dan y drefn bresennol. Rydym hefyd yn cydnabod bod dargyfeiriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yn dilyn cau'r A4046, wedi cynyddu'r traffig ar yr A4047 rhwng Cendl a Chylchfan Bryn-mawr, lle mae'r drefn bresennol yn gweld ciwiau ar yr A465.

Yn ystod y tri mis pan fydd y ffordd ymuno tua'r gorllewin yn cael ei hadeiladu, bydd arwyddion ymlaen llaw a dargyfeiriadau'n lleihau'r traffig o'r A467 sy'n teithio drwy Cendl, a bydd traffig yr A465 yn aros ar y ffordd honno os yw'n symud yn rhydd. Ar ôl i'r ffordd ymuno tua'r gorllewin gael ei chwblhau, disgwylir y bydd traffig o'r A467 tua'r gorllewin yn defnyddio'r A465, a fydd yn symud yn rhydd. Nid ydym yn disgwyl i'r traffig na'r ciwiau gynyddu'n sylweddol, felly, nid ydym yn disgwyl i allyriadau gynyddu. Yn ogystal mae terfyn pwysau o 7.5 tonnell ar gyfer cerbydau sy'n teithio drwy Gendl, ac rydym wedi atgyfnerthu'r arwyddion ymlaen llaw sy'n hysbysu am y terfyn pwysau.

Er bod Opsiwn A yn gweithredu mewn ffordd debyg i'r drefn bresennol, yn ôl pob golwg, a gallai ddarparu rhai manteision yn ystod adegau tawel, bydd yn cyflwyno tagfeydd sylweddol ar yr A465 a'r rhwydwaith ffyrdd lleol yn y bore ac yn y gyda'r nos, ac yn annog defnyddio ffyrdd lleol. Nid yw'r drefn yn addas ar gyfer cerbydau mwy chwaith.

Gydag Opsiwn B, byddai'r ffordd ymadael tua'r gorllewin i Fryn-mawr ar gau nes bod y prosiect bron wedi cael ei gwblhau. Byddai'r ffordd ymuno tua'r gorllewin ar gau am dri mis. Mae swyddogion yn parhau i herio Costain i chwilio am gyfleoedd i gwblhau'r gwaith mor gyflym ac mor ddiogel ag y bo modd. Yn ogystal, pan fydd y cynllun wedi'i gwblhau, bydd mynediad i Gendl a Bryn-mawr o'r A465 drwy Gylchfan Bryn-mawr, yn debyg i'r trefniadau a oedd ar waith cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

Mae rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael ei gynllunio i amlinellu effeithiau'r ddau opsiwn ar gyfer y cyhoedd, ac ar ôl hynny, gobeithir y bydd nifer o'r rheini sydd wedi llofnodi'r ddeiseb yn deall pam mai Opsiwn B yw'r opsiwn gorau at ei gilydd. Y bwriad oedd gwneud hyn drwy gyfres o arddangosfeydd cyhoeddus, ond oherwydd y cyfyngiadau yn sgil COVID-19, mae tîm y prosiect yn datblygu ffyrdd amgen o gynnal yr ymarfer rhannu gwybodaeth hwn. Ni fydd y lonydd yn cael eu symud nes bod y gwaith ymgysylltu wedi cael ei gynnal.

Yn olaf, hoffwn i roi sicrwydd ichi fod swyddogion yn gwneud popeth yn eu gallu i liniau unrhyw effeithiau negyddol posibl o ganlyniad i'r trefniadau rheoli traffig newydd. Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn parhau i fod yn ddiolchgar i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal am eu hamynedd wrth i'r gwaith i gwblhau'r prosiect hwn gael ei wneud.

Yn gywir



Ken Skates AC/AM

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.